# Atodiad 4

## Nodyn briffio a thrafodaeth ar gyfer cyfranogwyr sesiynau grŵp

Atodiad 4.1 Rheoli Pridd

Atodiad 4.2 Rheoli Cynefinoedd

Atodiad 4.3 Cyfleoedd i Ddatblygu’r Fferm

Atodiad 4.4 Iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw



# Atodiad 4.1
# Rheoli Pridd

## Cyflwyniad i'r gweithdy

**Cefndir**
Yn ystod yr haf 2019, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y papur ymgynghori Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Roedd y papur yn nodi cynigion diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer system newydd o ddarparu cymorth amaethyddol ac yn rhoi cyfle i ffermwyr a'r diwydiant ehangach gyflwyno eu barn.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a fyddai'n rhoi cymorth ariannol i ffermwyr, ac roedd yn esbonio sut y byddai Rheoli Tir Yn Gynaliadwy yn cael ei fabwysiadu fel fframwaith polisi a fyddai'n sylfaen i'r cynllun.

Cafwyd dros 3,300 o ymatebion i'r ymgynghoriad a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r rhain. At ei gilydd, roedd cefnogaeth eang i'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy arfaethedig yn yr ymatebion. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ein Ymateb: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir a chadarnhaodd, yng ngoleuni'r ymatebion, y bydd yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer cynllun yn y dyfodol yn seiliedig ar y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

**Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy**
Llwyddodd Menter a Busnes i ennill tendr i ymgysylltu gydag aelodau o'r sector ffermio yng Nghymru ynglŷn â chynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
Mae'r gwaith yn cynnwys 3 gweithgaredd penodol:


Arolwg ar-lein


Trafodaethau un-i-un


Gweithdai

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr a hoffent gymryd rhan yn y trafodaethau un-i-un a'r gweithdai. Cafodd y broses ddethol ei phennu gan fatrics a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n sicrhau cynrychiolaeth gan bob sector amaethyddol a demograffeg ffermio e.e. ffermwyr tenant, ffermwyr mynydd, ucheldir, llawr gwlad ayb. Felly, mae'n bosibl eich bod wedi cael eich dewis i gymryd rhan mewn trafodaethau un-i-un a gweithdai.





**Mae'r gweithdai'n seiliedig ar bedwar pwnc:**
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoli'r Pridd
- Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm
- Rheoli Cynefinoedd

Rydych wedi cael eich dewis i fynychu'r gweithdy **Rheoli'r Pridd.**

Yn y gweithdy, cewch gyfle i gael trafodaeth rydd ac agored ar yr agwedd Rheoli'r Pridd o fewn y cynigion ac ystyried ffyrdd y gellid eu rhoi ar waith mewn cynllun at y dyfodol.

Bydd llawer o'r gweithgareddau rheoli'r pridd yn effeithio ar gynnydd tuag at nifer o ganlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Er enghraifft, bydd cynnydd mewn carbon yn y pridd yn;
- Cynnal cynaeafau iach
- Helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd – drwy dynnu CO2 allan o'r atmosffer
- Gwella'r gallu i ymdopi â straen dŵr - sychder a llifogydd
- Lleihau llygredd dŵr ac aer
- Cefnogi ecosystemau gwydn – fflora, ffawna a microbau

Mae diddordeb gan gynllunwyr y cynllun i dalu am gamau gweithredu, profion a gwaith ar y cyd sy'n sicrhau nifer o ganlyniadau, er mwyn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae ganddynt ddiddordeb yn y ffordd y gallai grwpiau o weithgareddau arwain at ganlyniadau, yn fwy na'u canlyniadau unigol, ond hefyd sut all gweithgareddau arferol eraill danseilio unrhyw waith da arall yr ydych yn ei wneud ar ran y trethdalwr.

Mae ganddynt ddiddordeb hefyd yn y math neu i ba raddau y byddai profion yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ffermwyr, rheolwyr y cynllun ac academyddion, gan alluogi pob un ohonynt i wella, profi ac ymchwilio heb wario mwy o arian y trethdalwr nag sy'n angenrheidiol.

**Trafodaethau hyd yn hyn**
Gellir crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn y trafodaethau un-i-un fel a ganlyn:
1. Yn gyffredinol, mae ffermwyr yn rhoi llawer iawn o ystyriaeth i briddoedd ac yn ystyried nifer o ffactorau cyn newid rheolaeth eu priddoedd, gan gynnwys canlyniadau profi / dadansoddi pridd, cyflwr gweledol, nodweddion perfformiad (e.e. cynnyrch), amodau hinsoddol a budd economaidd.
2. Cafwyd cydnabyddiaeth nad yw rhai arferion (yn amlach na'i pheidio yn gysylltiedig â systemau llaeth) yn enghreifftiau o arfer gorau o ran rheoli'r pridd, megis tir moel dros y gaeaf a photsio o ganlyniad i gadw da byw y tu allan dros y gaeaf.
3. Mae ffermwyr o'r farn eu bod yn meddu ar y sgiliau cywir ar gyfer rheoli eu priddoedd, ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd priddoedd iach ar gyfer cynhyrchiant yn ogystal â ffactorau amgylcheddol eraill.
4. Byddai parhau â'r cymorth gyda samplu'r pridd a chyflwyno cymorth ar gyfer ychwanegu calch yn ymyriadau effeithiol o ran gwella'r broses o reoli pridd.
5. Mae dealltwriaeth o nod a gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran rheoli'r pridd hefyd yn bwysig ac mae angen cyfathrebu ac egluro hynny fel rhan o'r cynllun

newydd. Rhannwyd profiadau negyddol am Glastir a'r dull gweithredu sydd wedi effeithio ar iechyd meddwl rhai ffermwyr. Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd cyd-ddylunio a phartneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant ar gyfer y SFS.

6. Nid yw cynlluniau blaenorol wedi hwyluso cydweithio rhwng cymdogion; er mwyn sicrhau dull ar draws y dirwedd tuag at reoli'r pridd o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, dylid annog dulliau i annog cydweithredu o'r fath.
6. Mae atyniad ymuno â chynllun yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ond bydd yr apêl economaidd yn hollbwysig. Mae'r sector a rhanbarth daearyddol/math o fferm yn dylanwadu ar hyfywedd ariannol ffermydd. Bydd hyn, yn ei dro, yn dylanwadu ar faint o awydd sydd i gymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cwestiynau

Mae'r prif gwestiynau i'w trafod yn y gweithdai fel a ganlyn:

1. Mae rheoli'r pridd yn elfen allweddol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Bydd lefelau isafswm yn berthnasol ar gyfer rheoli'r pridd. Fodd bynnag, o dan y cynllun newydd, y gobaith yw y bydd ffermwyr yn teimlo cymhelliant i ymgymryd â gweithgareddau a fydd yn cynnal ac yn gwella iechyd, bioleg a strwythur y pridd.
   - **Sut y dylid cymell ffermwyr i gymryd camau gweithredu ac i newid arferion rheoli er mwyn rheoli pridd yn well?**
   - Mae cynnal pH sefydlog yn allweddol er mwyn gwella bioleg y pridd. Sut y dylid annog hyn?
   - A ddylai'r cynllun annog opsiynau o beidio â thrin y tir (no-till) neu drin y tir cyn lleied â phosibl (min-till) ar systemau glaswelltir/tir âr?
   - A ddylai'r cynllun gymell ffermwyr i hau porfeydd aml-rywogaeth sydd wedi profi i wella strwythur a bioleg y pridd? A ddylid cynnig cymhelliant penodol ar gyfer nifer y rhywogaethau sy'n sefydlogi N, planhigion sy'n gwreiddio ar wahanol ddyfnder, neu gynnwys planhigion meddyginiaethol?
   - Beth yw'r farn ynglŷn â chadw stoc allan dros y gaeaf? (Maint da byw)
   - A ddylid plannu cnwd gorchudd dros y gaeaf er mwyn osgoi erydu pridd yn dilyn cnydau indrawn a thatws?
   - A allai amaeth goedwigaeth fod yn opsiwn?
   - A ddylid rhoi mwy o bwys ar effaith plaladdwyr/chwynladdwr ar fioleg y pridd? (a allai eu defnydd danseilio camau gweithredu eraill?)

2. Anogir arfer gorau yn y cynllun drwy Gynllunio Rheoli Maetholion (NMP) a Chynllunio Rheoli Tail (MMP). **Pa mor effeithiol allai'r cynlluniau hyn fod o ran gwella rheolaeth o'r pridd ar holl ffermydd Cymru yn eich barn chi?**
   - Beth yw barn y ffermwr am hyn?
   - A yw pob ffermwr yn ymwybodol o fanteision cadarnhaol Cynllun Rheoli Maetholion a thargedu maetholion a ddefnyddir?
   - A ddylai meddu ar Gynllun Rheoli Maetholion fod yn elfen orfodol o'r cynllun?
   - A ddylai fod angen i ffermwyr ddangos eu bod wedi gweithredu ar yr argymhellion? Os felly, sut?
   - Mae gan y rhan fwyaf o ffermwyr Gynllun Rheoli Maetholion at ddibenion Sicrwydd Fferm. Fodd bynnag, a ddylid rhoi mwy o bwys ar ddilyn y cynllun hwnnw? A ddylai fod angen iddynt ddangos eu bod wedi dilyn y cynllun?



CYD-DDYLUNIO CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

3. Mae'r cynllun yn ystyried trefn brofi flynyddol ar gyfer priddoedd i olrhain y newidiadau mewn maetholion pridd, gwydnwch ecosystemau a nodweddion ffisegol y pridd. Mae Llywodraeth Cymru yn agored i ddulliau a all gynnwys asesiadau gweledol, profion ar y fferm, anfon samplau at labordai, technoleg synwyryddion o bell ac eraill. **Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei ystyried wrth ddatblygu trefn flynyddol ar gyfer profion?**
   - Beth yw barn y ffermwr am hyn?
   - A yw asesu'r pridd yn flynyddol yn arferol neu'n arfer newydd?
   - Beth ddylid ei brofi'n flynyddol? pH, P, K neu ddeunydd organig pridd manylach, cyfraddau ymdreiddiad?
   - A ddylid cadw cofnod o welliant mewn iechyd pridd ar y fferm?
   - A ddylid gwobrwyo ffermwyr am welliannau i iechyd pridd (e.e. o ran deunydd organig)
   - A ddylid cynnal asesiad blynyddol o strwythur y pridd – gan chwilio am gywasgiad?

4. Mae'r cynllun hefyd yn ystyried dadansoddiad labordy proffesiynol er mwyn sicrhau ansawdd a graddnodi'r profion ar y fferm. Gallai hyn fod ar ddechrau'r contract ac wrth adnewyddu, neu oddeutu bob 5 mlynedd. Amlinellir isod gwmpas posibl ar gyfer y profion, gan gynnwys rhai, ond nid pob un o'r rhain:
   - crynodiadau macro faetholion - nitradau, ffosffadau, potasiwm ayb.
   - crynodiadau micro faetholion - copr, sinc, molybdenwm ayb
   - pH
   - cyfradd ymdreiddiad
   - deunydd organig pridd (carbon)
   - bioamrywiaeth – bacteria, ffwng, organebau bach a mawr, cyfrif pryfed genwair
   - cywasgu / ymwrthedd offer mesur treiddiad
   - pyllau prawf ar gyfer gwerthuso strata pridd

Beth yw eich barn ar yr uchod?
   - A fyddent eisiau derbyn y math hwn o wybodaeth drwy gynllun fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy?
   - A oes angen profion blynyddol yn ogystal â phrofion bob pum mlynedd?
   - A ddylai profion ar ddechrau'r contract gynnwys targedau ar gyfer gwella erbyn blwyddyn 5?

5. Gallai'r cynllun ddefnyddio canlyniadau profi a dadansoddi pridd i ddatblygu archif genedlaethol ar iechyd pridd, sy'n cynrychioli allbwn sylweddol. Bydd datblygu archif genedlaethol ar iechyd pridd yn helpu i gynllunio camau'r cynllun yn y dyfodol ac yn darparu tystiolaeth o lwyddiant, e.e. ar gyfer nodau cenedlaethol i ddal a storio carbon yn y pridd. Byddai hefyd yn ffynhonnell ddata ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu academaidd i gefnogi ffermio yng Nghymru. Beth yw eich barn am greu a chyfrannu at archif o'r fath?arming. What are your thoughts on creating and contributing to such an archive?
   - Beth yw barn y ffermwyr ynglŷn â chyfrannu at archif o'r fath?
   - A fyddai ffermwyr yn gwerthfawrogi gallu cael gafael ar y data drwy borth ar-lein?

6. Sut all y cynllun annog ffermwyr cyfagos i gydweithio i reoli priddoedd?
   - A oes cyfleoedd i hwyluso cydweithio a dysgu rhwng cymheiriaid?
   - Sut y gellir cyflawni dulliau ar draws y dirwedd?
   - A oes enghreifftiau da yr ydych yn ymwybodol ohonynt o ran rhannu peiriannau ayb?

Fe'ch anogir hefyd i godi unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r thema Rheoli'r Pridd yn ystod y gweithdy.

Dolenni
Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgynghori-brexit.pdf

Ein Hymateb: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/brexit-an-tir-ein-hymatebion.pdf



CYD-DDYLUNIO CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

# Atodiad 4.2
# Rheoli Cynefinoedd

## Cyflwyniad i'r gweithdy

**Cefndir**
Yn ystod yr haf 2019, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y papur ymgynghori Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Roedd y papur yn nodi cynigion diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer system newydd o ddarparu cymorth amaethyddol ac yn rhoi cyfle i ffermwyr a'r diwydiant ehangach gyflwyno eu barn.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a fyddai'n rhoi cymorth ariannol i ffermwyr, ac roedd yn esbonio sut y byddai Rheoli Tir Yn Gynaliadwy yn cael ei fabwysiadu fel fframwaith polisi a fyddai'n sylfaen i'r cynllun.

Cafwyd dros 3,300 o ymatebion i'r ymgynghoriad a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r rhain. At ei gilydd, roedd cefnogaeth eang i'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy arfaethedig yn yr ymatebion. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ein Ymateb: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir a chadarnhaodd, yng ngoleuni'r ymatebion, y bydd yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer cynllun yn y dyfodol yn seiliedig ar y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

**Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy**
Llwyddodd Menter a Busnes i ennill tendr i ymgysylltu gydag aelodau o'r sector ffermio yng Nghymru ynglŷn â chynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
Mae'r gwaith yn cynnwys 3 gweithgaredd penodol:


Arolwg ar-lein


Trafodaethau un-i-un


Gweithdai

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr a hoffent gymryd rhan yn y trafodaethau un-i-un a'r gweithdai. Cafodd y broses ddethol ei phennu gan fatrics a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n sicrhau cynrychiolaeth gan bob sector amaethyddol a demograffeg ffermio e.e. ffermwyr tenant, ffermwyr mynydd, ucheldir, llawr gwlad ayb. Felly, mae'n bosibl eich bod wedi cael eich dewis i gymryd rhan mewn trafodaethau un-i-un a gweithdai.

Mae'r gweithdai'n seiliedig ar bedwar pwnc:

- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoli'r Pridd
- Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm
- Rheoli Cynefinoedd

Rydych wedi cael eich dewis i fynychu'r gweithdy **Rheoli Cynefinoedd.**

Yn y gweithdy, cewch gyfle i gael trafodaeth rydd ac agored ar yr agwedd Rheoli Cynefinoedd o fewn y cynigion ac ystyried ffyrdd y gellid eu rhoi ar waith mewn cynllun at y dyfodol.

Mae'n bwysig bod ffermwyr a rheolwyr tir yn rheoli'r cynefinoedd ar eu tir. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y dylai ceisio cyd-nerthu ecosystemau fod yn rhan sylfaenol o reoli cynefinoedd yn llwyddiannus. Mae ecosystemau gwydn yn golygu amrywiaeth a digonedd o rywogaethau sy'n addas ar gyfer cynefin. Gyda digonedd o rywogaethau amrywiol, mae systemau ecolegol yn fwy tebygol o allu ymdopi gydag aflonyddwch, gallu adfer neu addasu iddynt, a pharhau i ddarparu buddion ar gyfer y gymdeithas.

Mae manteision digonedd o rywogaethau ac amrywiaeth yn cynnwys gwasanaethau megis:

- Peillio cnydau
- Hidlo dŵr ac aer
- Dal a storio carbon
- Cefnogi rhywogaethau ysglyfaethus sy'n rheoli nifer y plâu
- Rheoli erydiad pridd
- Rheoli cylchredau naturiol fel nitrogen a charbon

Pe bai pobl yn ceisio darparu'r holl wasanaethau a gyflenwir yn naturiol ar hyn o bryd, byddai'n ychwanegu cost sylweddol o ran amser, arian, carbon ac adnoddau eraill. Byddai'r baich ar y diwydiant Amaeth yng Nghymru i dalu'r costau cynhyrchu uwch. Trwy gynyddu gwytnwch, nod y cynllun ffermio cynaliadwy yw sicrhau bod y gwasanaethau hyn ac eraill megis iechyd a lles dynol, yn parhau i gael eu darparu.

Bydd isafswm safonau fel y nodir mewn rheoliadau yn berthnasol. Mae'r cynllun yn ymwneud â gweithredu y tu hwnt i'r isafswm, er mwyn darparu cymorth ychwanegol i wneud ecosystemau amaethyddol a naturiol yn fwy gwydn.

Nod Llywodraeth Cymru yw datblygu cynllun sy'n atgyfnerthu gwytnwch ecosystemau amaethyddol ac ecosystemau naturiol Bydd y cynllun yn cynnig cyfres o gamau gweithredu sydd wedi'u targedu at gyflawni hyn.

### Trafodaethau hyd yn hyn

Gellir crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn y trafodaethau un-i-un fel a ganlyn:

1. **Mae tir yn darparu cynefinoedd a chynhyrchiant.** Roedd gwahaniaeth pendant ymysg ffermwyr o ran y ffordd yr oeddent yn meddwl am eu tir; roedd y mwyafrif yn ystyried y tir 'fel un', yn darparu cynefin yn ogystal â chynhyrchiant.
2. **Gwybodaeth fanylach am ganlyniadau'r cynllun.** Nid oedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y gallent ymateb yn adeiladol i ymyriadau cynllun yn y dyfodol ar hyn o bryd gan nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth. Er eu bod yn cytuno â'r cysyniad o newid, byddai angen gwybodaeth fanwl ar agweddau ymarferol yr ymyrraeth sy'n berthnasol i'w systemau ffermio eu hunain. Roedd yr awydd i Lywodraeth Cymru weithio gyda ffermwyr yn hytrach na rhoi gorchmynion yn amlwg.
3. **Mae ffermwyr yn hyderus eu bod eisoes yn meddu ar sgiliau neu y gallant ddatblygu'r sgiliau gofynnol** i reoli cynefinoedd yn effeithiol yn ddibynnol ar dderbyn arweiniad a chyfarwyddyd clir.
4. **Mae'r diffiniad o 'dalu yn ôl deilliannau' yn peri ansicrwydd** yn enwedig o'i gymharu â 'thalu yn ôl canlyniad', sy'n fwy penodol. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch sut y byddai taliad o'r fath yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig gan fod deilliannau cynefinoedd yn gallu cymryd sawl blwyddyn i ddod i'r amlwg.
5. **Anogir defnyddio technoleg ar gyfer monitro ac adrodd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy**, ond mae angen sicrhau darpariaeth ar gyfer systemau traddodiadol lle bo mynediad a'r defnydd o dechnoleg yn gyfyngedig.
6. **Mae ffermwyr yn teimlo y dylent gael eu gwobrwyo am y gwaith da maen nhw'n ei wneud eisoes i ddiogelu cynefinoedd,** nid eu cosbi. Cafwyd beirniadaeth o Gynllun Glastir, ynghyd â theimlad y dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy edrych ar y gwersi a ddysgwyd fel rhan o gynlluniau blaenorol. Mae angen i'r cyllid o fewn y cynllun newydd fod yn ddigonol neu ni fydd llawer o ffermwyr yn cofrestru.
7. Mae angen cyfathrebu pellach a chodi ymwybyddiaeth ffermwyr er mwyn **datblygu cynllun yn rhanbarthol** i gyd-fynd â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond 9% o'r ymatebwyr oedd yn gyfarwydd â manylion y Datganiadau Ardal hynny

### Cwestiynau

Mae'r prif gwestiynau i'w trafod yn y gweithdai fel a ganlyn:

1. Mae ysglyfaethwyr naturiol ar gyfer llawer o'r plâu sy'n effeithio ar gynhyrchiant amaethyddol (e.e. buwch goch gota, wenoliaid, tylluanod ac ystlumod), ond yn anffodus mae niferoedd llawer o'r rhywogaethau hyn wedi gostwng yn raddol dros y degawdau.
   - Pa arferion y gellid eu defnyddio ar y fferm i hybu'r poblogaethau hyn, a pha arferion allai fod angen eu lleihau neu eu lliniaru er mwyn osgoi niwed pellach iddynt?
   - Sut allech chi gyflawni hyn yn ymarferol?
   - Pa gamau gweithredu penodol ydych wedi'u gweld yn gweithio, neu a hoffech eu gweld yn cael eu cyflwyno i hybu'r poblogaethau hyn?

2. **Mae amrywiaeth o fewn biosffer y pridd yr un mor bwysig â'r amrywiaeth uwchben y ddaear. Mae bywyd yn y pridd, fel bacteria, ffwng, llyngyr a phryfed, yn sylfaen i'r gadwyn fwyd ar gyfer bywyd gwyllt a dof fel ei gilydd.**
   - Sut ddylem ni roi ystyriaeth i ecosystemau o dan y ddaear o fewn yr amgylchedd ffermio?
   - A yw'n fater o ddewis meysydd penodol lle mae ffocws ar wella/cynnal yr ecosystem o dan y ddaear, neu a ddylai fod yn ddull fferm gyfan? Pa fath o hyblygrwydd fyddai ei angen er mwyn gwneud hyn?
   - Yn eich profiad chi, pa arferion sy'n gwella/cynnal ecosystem y pridd, a pha arferion a allai fod angen eu rheoli'n ofalus er mwyn osgoi difrod?
   - Sut allech chi fesur iechyd yr ecosystem o dan y ddaear yn effeithiol? A fyddai unrhyw adnoddau/offer/hyfforddiant/cyngor arbenigol ychwanegol ac ati yn ddefnyddiol i chi?

3. Gallai integreiddio ecosystemau amaethyddol a naturiol ar hyd y dull rhannu tir fod yn rhan o'r cynllun. Byddai hyn yn cynnwys dulliau fel tir pori ymysg coed, plannu cnydau mewn stribedi, porfeydd cymysg, a dulliau eraill i gysylltu'r ecosystemau ar draws y dirwedd heb dynnu tir o'r ardal gynhyrchu. Ni ddylai ffermwyr deimlo chwaith fod angen iddynt weithredu ar eu pen eu hunain.

Sut allai'r cynllun eich helpu i weithio ar 'raddfa'r dirwedd', e.e. gyda chymdogion, eraill o fewn dalgylch eich afon, ar yr ucheldir ac ar lawr gwlad?

- Beth sy'n eich rhwystro ar hyn o bryd?
- Ydych chi wedi gweld enghreifftiau da o gydweithio dros dirweddau cyfan?
- A oes unrhyw arferion yn y gorffennol o genedlaethau blaenorol y gallem ddysgu oddi wrthynt?
- A oes unrhyw arferion newydd sydd o ddiddordeb i chi, neu yr ydych wedi cael profiad o'u defnyddio at y diben hwn?
- Gyda phwy fyddai angen i chi weithio neu dderbyn mewnbwn/cymorth ganddynt i wneud i hyn weithio'n effeithiol?

Sut allwn ni feithrin cysylltiadau rhwng pocedi o ecosystemau naturiol ar draws y dirwedd, ar wahanol ffermydd a daliadau?

- Sut allwn ni feithrin cysylltiadau rhwng y gwahanol ffermwyr a rheolwyr tir?
- A oes rôl o ran hwyluso a rheoli'r cysylltiadau hyn? Os felly, pwy fyddai mewn sefyllfa dda i wneud hynny?

Sut ydym ni'n sicrhau nad yw'r cysylltiadau hyn yn cael eu colli wrth i dir newid dwylo neu wrth i amgylchiadau newid?

4. Mae ardaloedd gwarchodedig (e.e. SoDdGA, ACA, AGA ayb) yn rhoi dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol ar ffermwyr o ganlyniad i ofynion rheoliadol uwch.

Beth yw eich profiad o weithio gyda dynodiadau ardaloedd gwarchodedig fel y rhain a beth yw'r goblygiadau i'ch busnes fferm?
Beth yw buddion y dynodiadau hyn yn eich barn hi ar gyfer yr amgylchedd ehangach?
Gan gofio bod y dynodiadau hyn yn seiliedig ar reoliadau statudol, sut ydych chi'n credu y dylid eu cynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy?

- Beth arall allech chi ei wneud wrth eu rheoli?
- A fyddai angen unrhyw gymorth neu gyngor ychwanegol arnoch? Gan bwy?

5. Gall ffermwyr chwarae rhan bwysig o ran rheoli effaith rhywogaethau goresgynnol ar gefn gwlad (e.e. Clymog Japan, Jac y Neidiwr, Cimwch Afon America, Cacynen Asia, Rhododendron, y Wiwer Lwyd ayb), yn bennaf am eu bod yn byw ar 88% o dir y wlad, ac yn gallu gweld ymddangosiad a lledaeniad y rhywogaethau hyn.

- A oes gennych chi brofiad o ddelio â rhywogaethau goresgynnol?
- Sut hoffech chi i'r cynllun hwn eich grymuso i ymateb i rywogaethau goresgynnol?
- A oes unrhyw beth yn eich rhwystro ar hyn o bryd?
- A oes unrhyw beth a fyddai'n eich helpu i flaenoriaethu'r gwaith o ymdrin â rhywogaethau goresgynnol fel rhan o'ch gwaith o ddydd i ddydd?





Fe'ch anogir hefyd i godi unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r thema Rheoli Cynefinoedd yn ystod y gweithdy.

Dolenni
Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgynghori-brexit.pdf

Ein Hymateb: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/brexit-an-tir-ein-hymatebion.pdf

# Atodiad 4.3
# Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm

## Cyflwyniad i'r gweithdy

### Cefndir

Yn ystod yr haf 2019, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y papur ymgynghori Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Roedd y papur yn nodi cynigion diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer system newydd o ddarparu cymorth amaethyddol ac yn rhoi cyfle i ffermwyr a'r diwydiant ehangach gyflwyno eu barn.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a fyddai'n rhoi cymorth ariannol i ffermwyr, ac roedd yn esbonio sut y byddai Rheoli Tir Yn Gynaliadwy yn cael ei fabwysiadu fel fframwaith polisi a fyddai'n sylfaen i'r cynllun.

Cafwyd dros 3,300 o ymatebion i'r ymgynghoriad a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r rhain. At ei gilydd, roedd cefnogaeth eang i'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy arfaethedig yn yr ymatebion. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ein Ymateb: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir a chadarnhaodd, yng ngoleuni'r ymatebion, y bydd yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer cynllun yn y dyfodol yn seiliedig ar y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

### Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Llwyddodd Menter a Busnes i ennill tendr i ymgysylltu gydag aelodau o'r sector ffermio yng Nghymru ynglŷn â chynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
Mae'r gwaith yn cynnwys 3 gweithgaredd penodol:


Arolwg ar-lein


Trafodaethau un-i-un


Gweithdai

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr a hoffent gymryd rhan yn y trafodaethau un-i-un a'r gweithdai. Cafodd y broses ddethol ei phennu gan fatrics a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n sicrhau cynrychiolaeth gan bob sector amaethyddol a demograffeg ffermio e.e. ffermwyr tenant, ffermwyr mynydd, ucheldir, llawr gwlad ayb. Felly, mae'n bosibl eich bod wedi cael eich dewis i gymryd rhan mewn trafodaethau un-i-un a gweithdai.



CYD-DDYLUNIO CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

**Mae'r gweithdai'n seiliedig ar bedwar pwnc:**
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoli'r Pridd
- Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm
- Rheoli Cynefinoedd

Rydych wedi cael eich dewis i fynychu'r gweithdy **Strategaeth Datblygu Ffermydd.**

Yn y gweithdy, cewch gyfle i gael trafodaeth rydd ac agored ar yr agwedd Strategaeth Datblygu Ffermydd o fewn y cynigion ac ystyried ffyrdd y gellid eu rhoi ar waith mewn cynllun at y dyfodol.

Mae cynaliadwyedd ariannol yr un mor bwysig i Lywodraeth Cymru â'r agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol. Er y gall Llywodraeth Cymru gaffael deilliannau cymdeithasol ac amgylcheddol, mae cynaliadwyedd ariannol o fewn rheolaeth y ffermwr. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno darparu cymorth i helpu busnesau fferm i ddod yn fwy gwydn.

Mae Ffermio Cynaliadwy a'n Tir yn nodi y gallai cynllunio busnes, meincnodi, rhyngweithio gyda data'r farchnad a'r gadwyn gyflenwi yn well arwain at welliannau busnes a fydd yn cynorthwyo i gyflawni canlyniadau Rheoli'r Tir yn Gynaliadwy.

Mae adroddiad AHDB 'The Characteristics of High Performing Farms in the UK' yn amlinellu'r rhinweddau y mae'r busnesau sy'n perfformio orau yn eu rhannu. Mae'r gwahaniaeth rhwng ffermydd chwartel uchaf a ffermydd chwartel isaf yn bennaf o ganlyniad i'r gwahanol benderfyniadau a wneir gan ffermwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y bydd ffermwyr sy'n mwynhau eu gwaith yn perfformio'n well.

Mae angen ystyried sut i ymgysylltu â ffermwyr a pherchnogion tir i edrych yn effeithiol ar ddatblygiad eu fferm dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Yn hytrach na chanolbwyntio ar reoli'r agweddau ariannol, mae angen i ni ddatblygu asesiad holistaidd o'r fferm, uchelgais/nodau'r ffermwr, y teulu a'r gweithwyr, a sut all y ffermwr wella'r effaith ar yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach.

### Trafodaethau hyd yn hyn

Gellir crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn y trafodaethau un-i-un fel a ganlyn:
1. Yr angen i ddefnyddio ymgynghorwyr credadwy, dibynadwy ac uchel eu parch – roedd rhywfaint o amheuaeth ymhlith nifer o'r rhai a holwyd ynghylch gwerth ymgynghorwyr. Teimlai ffermwyr y dylai'r ymgynghorwyr gael rhywfaint o hygrededd cyn y byddent yn ystyried eu barn a'u hawgrymiadau o ddifrif.
2. Ychydig iawn oedd wedi cynnal dadansoddiad SWOT ysgrifenedig ffurfiol – er i sawl un sôn y byddent yn gwneud hynny'n anffurfiol.
3. Nid oedd ffermwyr eisiau cael eu cosbi am fethu â chyrraedd targedau busnes – er bod cytundeb cyffredinol bod gosod nodau a thargedau yn bwysig ac yn hanfodol i ysgogi gwelliannau busnes, ni ddylai taliadau fod yn gysylltiedig â chyrraedd y targedau hynny oherwydd dylanwad ffactorau allanol.

4. Dylai cymorth ganolbwyntio ar wella cynhyrchiant – nodwyd amrywiaeth o themâu ynghyd ag ystyriaethau o gynlluniau presennol. Mae hygyrchedd ar gyfer ffermydd o bob maint yn bwysig. Mae angen rhagor o fanylion am y cynllun er mwyn pennu agweddau ar feincnodi a monitro datblygiad ffermydd yn llawn.

**Cwestiynau**

Mae'r prif gwestiynau i'w trafod yn y gweithdai fel a ganlyn:

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cefnogi datblygiad ffermydd sy'n berthnasol ac yn addas i bob fferm. Bydd anghenion ffermydd unigol yn amrywio a bydd angen cymorth wedi'i deilwra ar eu cyfer. Bydd angen i ffermwyr, gyda chymorth hwylusydd, ddarganfod pa gymorth sydd ei angen arnynt drostynt eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dull gweithredu pedwar cam

- Uchelgeisiau a Nodau – Nodi ble mae'r ffermwyr am weld eu fferm yn y tymor canolig i'r hirdymor
- Dadansoddiad SWOT – Asesiad o'r cryfderau a'r gwendidau; a nodi'r cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n wynebu busnesau wrth geisio cyflawni eu huchelgeisiau a'u nodau.
- Strategaeth Datblygu Ffermydd – Defnyddio dadansoddiad SWOT i ddatblygu strategaeth sy'n seiliedig ar adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd wrth liniaru gwendidau a bygythiadau.
- Asesiad Parhaus – Asesiad parhaus o berfformiad ffermydd yn erbyn y Strategaeth Datblygu Ffermydd, cymharu dangosyddion perfformiad allweddol o flwyddyn i flwyddyn a rhwng cymheiriaid, gan gydnabod llwyddiannau a chwilio'n rhagweithiol am feysydd i'w gwella.

### 4.1 Uchelgais a nodau

Mae gosod uchelgeisiau yn rhoi cyfeiriad i ffermwyr ddatblygu eu ffermydd. Mae angen i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr uchelgeisiau hyn fod yn gefnogol. Er nad yw pob ffermwr a rheolwr tir yn edrych ar geisio gwneud cymaint o elw â phosibl, mae'r rhan fwyaf ohonynt, os nad pob un, yn disgwyl gwneud colled dros y tymor hir. Mae gosod nodau sy'n berthnasol i'r uchelgeisiau yn darparu llwybr realistig at lwyddiant.

1. Sut mae ffermwyr yn teimlo ynglŷn â thrafod uchelgeisiau ar gyfer eu busnes ffermio?
   - Pa ffactorau fyddai ffermwyr yn eu hystyried wrth nodi eu huchelgeisiau ar gyfer y fferm? (rhowch enghreifftiau)
   - A yw'r uchelgeisiau'n ariannol neu'n anariannol eu natur?
   - A ellir defnyddio uchelgeisiau er mwyn cyfeirio at gymorth neu dderbyn cymorth?

### 4.2 Dadansoddiad SWOT

Techneg gynllunio strategol yw dadansoddiad SWOT a ddefnyddir i helpu i nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau sy'n gysylltiedig â gallu busnes i gystadlu neu gynllunio prosiectau. Bwriad y dadansoddiad yw nodi amcanion y busnes neu brosiect a chanfod y ffactorau mewnol ac allanol sy'n ffafriol ac yn anffafriol er mwyn cyflawni'r amcanion hynny. Yn aml, mae'r rhai sy'n defnyddio dadansoddiad SWOT yn gofyn ac yn ateb cwestiynau er mwyn casglu gwybodaeth ystyrlon ar gyfer pob categori i wneud yr adnodd yn ddefnyddiol ac i ganfod eu mantais gystadleuol.





**Cryfderau a Gwendidau**

Mae cryfderau a gwendidau yn briodoleddau mewnol sydd fel arfer yn ddiriaethol. Efallai na fydd modd newid rhai priodoleddau, ond mae'n bosibl newid rhai eraill. Gan fod pob fferm yn unigryw, bydd cryfderau a gwendidau pob fferm yn wahanol.

2. Beth yw prif Gryfderau a Gwendidau busnesau ffermio?

Amlinellwch y rhai sy'n gyffredinol ar draws y diwydiant a'r rhai sy'n benodol i'r sector o fewn y sectorau canlynol: -

- Llaeth
- Bîff a Defaid
- Tir Âr a Garddwriaeth

(Casglwyd Cryfderau a Gwendidau ar sail unigol yn ystod y sesiynau un-i-un)

- A allai cyfranogwyr roi enghreifftiau o ba Gryfderau a Gwendidau y gellir eu meintioli neu brofi?
- I ba raddau y mae ffermwyr yn defnyddio offer (fel meddalwedd cyfrifiadurol), cyngor neu wybodaeth i'w helpu i benderfynu ar eu Cryfderau a'u Gwendidau?

**Cyfleoedd a Bygythiadau**

Mae cyfleoedd a bygythiadau yn ffactorau allanol nad ydynt fel arfer yn ddiriaethol. Gall rhai cyfleoedd fod ar gael i bob fferm a bydd eraill yn benodol i leoliad fferm benodol neu sgiliau unigolion. Mae gan fygythiadau'r potensial i effeithio'n negyddol ar fusnesau fferm, ac felly mae lliniaru effaith bygythiadau yn hanfodol o ran meithrin cydnerthedd.

3. A all ffermwyr nodi'r Cyfleoedd a'r Bygythiadau i amaethyddiaeth yng Nghymru a'r rhai sy'n benodol i'r sectorau canlynol?...
   - Llaeth
   - Bîff a Defaid
   - Tir Âr a Garddwriaeth

Sut mae ffermwyr yn adnabod cyfleoedd ac yn chwilio am ragor o wybodaeth amdanynt?

- Sut fyddai gwireddu bygythiadau yn effeithio ar ffermydd?
- Sut mae ffermwyr wedi ymateb i fygythiadau yn y gorffennol?
- A yw ffermwyr yn gwneud unrhyw beth i gyfyngu ar effaith bygythiadau posibl ar eu busnes ffermio?

### 4.3 Strategaeth Busnes Fferm

Bydd canlyniad y dadansoddiad SWOT yn sylfaen ar gyfer y strategaeth ac yn adnabod meysydd y mae angen i'r fenter ffermio fynd i'r afael â nhw er mwyn gwireddu eu huchelgeisiau. Gan ddefnyddio dadansoddiad SWOT enghreifftiol gofynnir i'r grŵp ddatblygu

- Twf (Cryfder, Cyfle) - defnyddio cryfderau mewnol i fanteisio ar gyfleoedd allanol
- Atgyfnerthu (Cryfder, Bygythiad) - defnyddio cryfderau mewnol i liniaru effeithiau gwendidau allanol
- Amddiffynnol (Gwendid, Cyfle) – Goresgyn gwendid mewnol drwy fanteisio ar gyfleoedd allanol
- Osgoi (Gwendid, Bygythiad) – Goresgyn gwendid mewnol a lleihau bygythiadau allanol

4. Beth yw'r manteision a'r anfanteision o ddatblygu strategaeth fferm yn seiliedig ar y dull SWOT a amlinellir uchod?

- A oedd y grŵp yn teimlo y gallent ddatblygu strategaeth yn llwyddiannus?
- Pa mor werthfawr fyddai'r ymarfer hwn i ffermwyr?
- A yw hwn yn ymarfer y byddent angen ychydig o help gan drydydd parti allanol i'w gwblhau?

4.4 Asesu Parhaus
Unwaith y bydd y strategaeth ar waith a bod y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith, mae angen mecanwaith i asesu effaith y newidiadau. Mae hwn yn gam hollbwysig sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y newidiadau'n cael y canlyniadau a ddymunir. Bydd defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar draws y sector yn galluogi'r grŵp i nodi eu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ac o'i gymharu â'u cymheiriaid. Mae darparu data perfformiad yn galluogi i ddata gael ei gasglu ynghyd i'w ddefnyddio ar gyfer meincnodi. Mae meincnodi'n gwella gyda chynnydd mewn data. Gellir defnyddio data perfformiad wedi'i ddilysu hefyd i lywio'r rhestri sy'n mesur allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol ac amonia yn well. Mae ffermwyr eisoes yn darparu gwybodaeth i wahanol gyrff at ddibenion amrywiol (SAF/symud anifeiliaid/sicrwydd fferm/organig).

5. I ba raddau y dylai ffermwyr fod yn rheoli eu cynnydd a'u perfformiad eu hunain ac yn rhannu'r canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru? Sut ellir gwneud hyn?

- Pa newidiadau busnes y dylid eu monitro?
- A yw ffermwyr yn gyfforddus yn darparu data meincnodi i drydydd parti fel Meincnodi Cig Coch (Red Meat Benchmarking), a ddarperir gan Hybu Cig Cymru?
- Pa ddata fyddai ffermwyr yn gyfforddus yn ei rannu a pha ddata na fyddent yn fodlon ei rannu?
- A oes unrhyw bryderon ynghylch defnyddio'r data i werthuso effeithiolrwydd y cynllun?
- A oes unrhyw bryderon o ran caniatáu i wahanol gyrff (e.e. cynlluniau gwarant fferm, contractau proseswyr a chyrff anllywodraethol) i rannu gwybodaeth?

Fe'ch anogir hefyd i godi unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r thema Datblygu Ffermydd yn ystod y gweithdy.

Dolenni
Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgynghori-brexit.pdf

Ein Hymateb: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/brexit-an-tir-ein-hymatebion.pdf



CYD-DDYLUNIO CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

# Atodiad 4.4
# Iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw

## Cyflwyniad i'r gweithdy

**Cefndir**
Yn ystod yr haf 2019, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y papur ymgynghori Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Roedd y papur yn nodi cynigion diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer system newydd o ddarparu cymorth amaethyddol ac yn rhoi cyfle i ffermwyr a'r diwydiant ehangach gyflwyno eu barn.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a fyddai'n rhoi cymorth ariannol i ffermwyr, ac roedd yn esbonio sut y byddai Rheoli Tir Yn Gynaliadwy yn cael ei fabwysiadu fel fframwaith polisi a fyddai'n sylfaen i'r cynllun.

Cafwyd dros 3,300 o ymatebion i'r ymgynghoriad a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r rhain. At ei gilydd, roedd cefnogaeth eang i'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy arfaethedig yn yr ymatebion. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ein Ymateb: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir a chadarnhaodd, yng ngoleuni'r ymatebion, y bydd yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer cynllun yn y dyfodol yn seiliedig ar y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

**Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy**
Llwyddodd Menter a Busnes i ennill tendr i ymgysylltu gydag aelodau o'r sector ffermio yng Nghymru ynglŷn â chynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
Mae'r gwaith yn cynnwys 3 gweithgaredd penodol:


Arolwg ar-lein


Trafodaethau un-i-un


Gweithdai

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr a hoffent gymryd rhan yn y trafodaethau un-i-un a'r gweithdai. Cafodd y broses ddethol ei phennu gan fatrics a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n sicrhau cynrychiolaeth gan bob sector amaethyddol a demograffeg ffermio e.e. ffermwyr tenant, ffermwyr mynydd, ucheldir, llawr gwlad ayb. Felly, mae'n bosibl eich bod wedi cael eich dewis i gymryd rhan mewn trafodaethau un-i-un a gweithdai.

Mae'r gweithdai'n seiliedig ar bedwar pwnc:
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoli'r Pridd
- Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm
- Rheoli Cynefinoedd

Rydych wedi cael eich dewis i fynychu'r gweithdy **Iechyd a Lles Anifeiliaid.**

Yn y gweithdy, cewch gyfle i gael trafodaeth rydd ac agored ar yr agwedd ar yr elfen Iechyd a Lles Anifeiliaid o fewn y cynigion ac ystyried ffyrdd y gellid eu rhoi ar waith mewn cynllun yn y dyfodol.

Mae iechyd a lles anifeiliaid da yn un o ganlyniadau positif Rheoli Tir yn Gynaliadwy y mae'r cynllun yn anelu at ei sicrhau. Mae'n cael effaith bositif ar bobl, yr amgylchedd, ac wrth gwrs anifeiliaid a da byw. Nod y cynllun arfaethedig yw gwella iechyd a lles pob anifail sy'n cael ei ffermio drwy annog a gwobrwyo ffermwyr am gymryd ymagwedd tu hwnt i'r hyn sy'n ddisgwyliedig dan y rheoliadau er mwyn atal a rheoli clefydau.

Bydd y cynllun yn gwobrwyo ffermwyr sy'n cymryd camau gweithredu ar gynllunio iechyd anifeiliaid a bioddiogelwch. Mae Llywodraeth Cymru hefyd am wobrwyo ffermwyr sy'n mabwysiadu safonau lles uchel sydd uwchben lefelau rheoleiddio.

### Trafodaethau hyd yn hyn

Gellir crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn y trafodaethau un-i-un fel a ganlyn:

1. Gwaredu Clefydau, yn enwedig yng nghyd-destun TB a Chlafr oedd y mater pwysicaf o bell ffordd a oedd yn gofyn am gymorth gan y Llywodraeth, gyda chynllunio iechyd, gwella ffiniau a siediau anifeiliaid hefyd yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth. Roedd lleihau'r defnydd o wrthfiotigau, cyfranogiad yn y cynllun iechyd a chymorth ar gyfer cadw cofnodion hefyd yn ystyriaethau i raddau llai.
2. Mae cyngor a chyfranogiad milfeddygol yn nodwedd allweddol o sicrhau safonau da o ran iechyd anifeiliaid ar ffermydd. Er bod gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gynlluniau iechyd ar waith, mae'n amlwg bod cynllun o'r fath yn mynd law yn llaw â'r berthynas a thrafodaethau gyda'r milfeddyg.
3. Trafodwyd cost a budd fel y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch a yw protocolau iechyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu ai peidio. Credir fod ystyriaethau ymarferol ac uchelgais sy'n berthnasol i bob fferm yn bwysig hefyd. Roedd costau hefyd yn cyfyngu ar welliannau ac addasiadau i siediau da byw er mwyn gwella iechyd a lles anifeiliaid.
4. Mae angen i arferion monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chadw cofnodion fod yn ymarferol ac yn berthnasol i'r system ffermio. Mae awydd i wneud mwy gyda'r gefnogaeth gywir.
5. Roedd ffactorau eraill a oedd yn peri pryder mewn perthynas â'r pwnc yma'n cynnwys bioddiogelwch ar lwybrau cyhoeddus ac aflonyddu gan gŵn. Roedd cyfarwyddyd cynlluniau amgylcheddol i leihau pwysau pori ar yr ucheldir a materion lles cysylltiedig (e.e. mwy o achosion o drogod) hefyd yn peri pryder.



CYD-DDYLUNIO CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

### Cwestiynau

Mae'r prif gwestiynau i'w trafod yn y gweithdai fel a ganlyn:

1. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld dwy brif ffordd y gallai safonau Iechyd a Lles ar y fferm fod yn gysylltiedig â thaliadau cymorth yn y dyfodol.
   a. Byddai modd gosod gofyniad safonol, lle byddai cymorth yn cael ei roi unwaith y byddai'r gofyniad yn cael ei fodloni. Byddai hwn yn asesiad ie/na a fyddai angen ei gwblhau'n llwyddiannus er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y gefnogaeth a nodwyd ar gyfer rhan o'r taliad.
   b. Fel rhan integredig o'r cynllun, ar ôl bodloni gwahanol safonau, byddai taliadau'n cael eu gwneud ar wahanol lefelau h.y. uchaf yw'r safon, y mwyaf yw'r gefnogaeth a roddir, ac i'r gwrthwyneb.

   - Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision y ddau opsiwn?
   - Pa un fyddai'n annog y gwelliant mwyaf yn y diwydiant?
   - A fyddai gan rai ffermwyr fwy o fantais nag eraill?
   - Beth fyddai'r anfanteision posibl gyda rheolau o'r fath?
   - Pa ddull a hoffech chi ei weld yn cael ei fabwysiadu fel rhan o'r cynllun newydd?

2. Dylid gosod y safon ofynnol uwchben yr isafswm cyfreithiol a dylai weithredu fel cymhelliant a gwobr. Bydd y safon a'r gofynion yn cael eu pennu fel bod gwelliant gwirioneddol yn cael ei wneud ond ei fod yn dal i fod o fewn cyrraedd i'r rhan fwyaf o ffermydd.
   Bydd llawer o ffermydd eisoes yn cyrraedd ac yn rhagori ar y safon honno, a bydd angen i eraill wneud newidiadau sylweddol i reolaeth ffermydd a seilwaith (e.e. siediau neu ffensio ffiniau) er mwyn cyrraedd y safon ofynnol.
   - Sut fyddech chi'n awgrymu y dylid cofrestru ffermydd sydd angen gwneud newidiadau ar y cynllun newydd?
   - A ddylent gael cymorth i gyrraedd y gofyniad sylfaenol?
   - A ddylai'r ffermydd hynny sydd eisoes yn rhagori ar y gofyniad sylfaenol gael yr un cyllid, neu swm uwch neu is?
   - Pa ddarpariaethau fyddai'n ddefnyddiol i helpu ffermwyr i gyrraedd y safonau iechyd a lles anifeiliaid gofynnol?
   - Sut ellir darparu gwybodaeth a chyngor? Cyswllt Ffermio? Grwpiau trafod? Mentoriaid fferm? Milfeddygon preifat?

3. Cynigir mai un o ofynion sylfaenol y cynllun newydd yw sefydlu proses cynllunio iechyd anifeiliaid, wedi'i lunio gyda'ch milfeddyg preifat. Gellid cynnwys casglu data er mwyn monitro gwelliannau ac ar gyfer safonau'r diwydiant yn y cynllun hwn hefyd
   - A oes gennych gynllun iechyd ar waith ar hyn o bryd?
   - A fyddai'r gofyniad cymhwyso hwn yn broblem i'r rhan fwyaf o ffermydd (neu ffermydd mewn sectorau penodol)?
   - Mae cynllunio iechyd anifeiliaid yn broses, nid yn ddogfen, ac mae'n cael ei wneud mewn sawl ffordd ac yn aml yn cael ei wneud yn barhaus drwy gydol y flwyddyn. Sut fyddai modd i ni asesu a yw'n cael ei wneud mewn modd rhagweithiol ac yn unol â'r safon sy'n ofynnol fel rhan o'r Cynllun?
   - Beth fyddai'n hwyluso'r gwaith o gasglu data at ei gilydd ar ffermydd?
   - Pa mor ddefnyddiol yw systemau cyfrifiadurol cyfredol ar y fferm?

4. Bydd llwyddiant y cynllun a safon ffermio yng Nghymru yn cael eu mesur yn ôl y data a gesglir ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol.
   a. Pa ddangosyddion allweddol o ran iechyd a lles anifeiliaid a ddylid eu cynnwys yn y cynllun?
   b. Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol a rhwydd i fesur a monitro'r rhain er mwyn gwirio bod ffermwyr o fewn y Cynllun yn bodloni'r safonau gofynnol er mwyn gallu manteisio ar y gefnogaeth?
   c. A oes unrhyw ffyrdd eraill o sicrhau a chymell safonau lles anifeiliaid da yn ogystal â chynhyrchu bwyd yn effeithlon?

5. Bydd ffocws cryf ar wella bioddiogelwch ffermydd. Mae hyn yn cynnwys atal heintiau rhag cyrraedd y fferm yn ogystal â gadael y fferm. Bydd y cyfle i wneud hyn yn ddibynnol iawn ar y fferm, o ran yr elfen rheoli a'r elfen ymarferol.
   - A ddylai'r gofyniad bioddiogelwch fod ar ffurf safonol i'w weithredu ar bob fferm (efallai mewn sector) neu ei deilwra i bob fferm unigol?
   - Pa gymorth/cyngor/gwybodaeth fyddai'n angenrheidiol i helpu ffermwyr i wella bioddiogelwch ar eu fferm?
   - A fyddai'n bosibl cynnwys plannu coed yn y gofyniad yn ymwneud â ffensio ffiniau?

Fe'ch anogir hefyd i godi unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r thema Iechyd a Lles Anifeiliaid yn ystod y gweithdy.

Dolenni
Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgynghori-brexit.pdf

Ein Hymateb: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/brexit-an-tir-ein-hymatebion.pdf